**Dyddiad:** **Dydd Mercher 14 Ionawr 2004**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Drafft terfynol Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 2004**

## Diben

1. Bydd y Pwyllgor yn craffu ar ddrafft terfynol Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 2004 yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2004.

## Crynodeb/Argymhellion

2. Mae'r rheoliadau drafft yn nodi'r trefniadau ar gyfer Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru ar ôl i Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003 gael Cydsyniad Brenhinol.

## Y Cefndir

3. Cyhoeddwyd cyfres newydd o reoliadau drafft ar Gynghorau Iechyd Cymuned ar 21 Gorffennaf 2003 i ymgynghori arnynt am 12 wythnos. Mae'r rhain yn nodi swyddogaethau Cynghorau Iechyd Cymuned a materion sy'n ymwneud ag aelodaeth. Mae llawer o gynnwys y Rheoliadau newydd yn debyg i reoliadau presennol Cynghorau Iechyd Cymuned a ddaeth i rym yn 1996, yn ogystal â darpariaethau sy'n ymwneud â'r pedwar pwynt bwled olaf uchod, hy aelodaeth, eirioli cwynion, pwerau mynediad a'r corff newydd ar gyfer Cymru gyfan. Cafodd y Pwyllgor bapur i'w nodi yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd 2003 (HSS(2)-07-03) ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y rheoliadau.

## Drafft terfynol y rheoliadau

4. Mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud yn y drafft terfynol, o ganlyniad i sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, sef:

- Mân newid drafftio i un o'r diffiniadau;
- Newid Rheoliadau 3, 6 a 9 ar aelodaeth i ystyried sylwadau a dderbyniwyd ar delerau aelodaeth a phenodiadau yn y sector gwirfoddol;

- Mân ychwanegiadau i bwyntiau drafftio yn Rheoliad 16 ac mewn mannau eraill yn y ddogfen;
- Newidiadau i eiriad Rheoliad 18 i ystyried sylwadau a dderbyniwyd am ymgynghori â Chynghorau Iechyd Cymuned ynghylch newid gwasanaethau;
- Newidiadau i eiriad Rheoliad 20 i ystyried sylwadau a dderbyniwyd am ymweliadau dirybudd ac i'w gwneud yn ofynnol i Gynghorau Iechyd Cymuned gydweithio â chyrff arolygu eraill.

5. Ystyriwyd manylion gwelliannau eraill a awgrymwyd, ond penderfynwyd bod y rhain yn ddiangen ac felly ni chawsant eu derbyn.

**Goblygiadau Ariannol**

6. Sicrhawyd swm rheolaidd ychwanegol o £550k yng Nghylch Cynllunio Cyllideb 2002 i atgyfnerthu a datblygu Cynghorau Iechyd Cymuned. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol pellach i'r Cynulliad yn sgil y ddeddfwriaeth hon.

**Themâu Trawsbynciol**

7. Soniwyd wrth y Pwyllgor am y rhain yn HSS(2)-07-03.

**Arfarniad Rheoliadol**

8. O ran Canllawiau'r Cynulliad, nid wyf yn ystyried y byddai Arfarniad Rheoliadol yn briodol yn yr achos hwn, gan fod un wedi'i baratoi ar gyfer Deddf Iechyd (Cymru) 2003, sef yr is-ddeddfwriaeth sy'n galluogi gwneud y Rheoliadau hyn. Mae'r hawliau ymweld ychwanegol sydd gan Gynghorau Iechyd Cymuned yn effeithio ar y rheini sy'n darparu gwasanaethau o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae swyddogion yn cydweithio â'r sector cartrefi gofal i sefydlu protocol ar gyfer y berthynas waith rhwng ei aelodau, Cynghorau Iechyd Cymuned ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Diwygiwyd Rheoliad 20 i'w gwneud yn ofynnol i Gynghorau Iechyd Cymuned gydweithio â chyrff arolygu eraill, gan leihau'r baich ar y sector gymaint â phosib.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

9. Craffu a gwneud sylwadau pellach.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Enwau Cyswllt:
David Boyland, Yr Is-adran Perfformiad, Ansawdd a Rheoleiddio, Ffôn: 029 2082 5537
Pat Vernon, Yr Is-adran Perfformiad, Ansawdd a Rheoleiddio, Ffôn: 029 2082 1427